


*Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw*

*Archwilio*  
**Islam**



*Llawlyfr Athrawon*

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

## Archwilio Islam

Tania ap Siôn a Diane Drayson.

Darluniau: Phillip Vernon.

Cyfieithiad: Nant Roberts.



**Bear Lands Publishing**

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
  - Archwilio Iddewiaeth
  - Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
  - Archwilio Hindwâeth
  - Archwilio Bwdhaeth
  - Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2009 gan y Ganolfan Genedlaethol  
Addysg Grefyddol,  
Prifysgol Bangor  
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan  
Bear Lands Publishing,  
Canolfan y Santes Fair,  
Llys Onnen,  
Abergwyngregyn,  
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

## Archwilio Islam

### Y stori

Mae gan Rhys a Sara ddau ffrind ysgol sy'n Fwslimiaid. Eu henwau yw Rashid a Fatima, ac mae Rashid a Fatima yn cyflwyno prif gredoau ac arferion Islam i Rhys a Sara. Mae'r plant yn archwilio mosg, ac yn dysgu am salah (gweddi ddefodol) ac am yr hyn sy'n digwydd yn y madrassah (ysgol fosc). Maen nhw'n dathlu gŵyl Eid-ul-Fitr ac yn dysgu am arwyddocâd Ramadan (mis ymprydio'r Mwslimiaid). Mae Rhys a Sara yn dod i wybod am ddwy ffynhonnell o awdurdod Islam, sef y Qur'an a'r Proffwyd Muhammad, ac maen nhw'n dysgu sut mae'r rhain yn effeithio ar fywydau Mwslimiaid. Trwy gyfrwng y stori am y Proffwyd Muhammad a'r camel, a thrwy ddod i wybod am yr arferiad o zakah (rhoi elusen), maen nhw'n archwilio beth yw agwedd Mwslimiaid tuag at yr amgylchedd ac at ofalu am eraill. Trwy ymweld â siop fwyd halal, maen nhw'n dysgu beth yw halal (yr hyn a ganiateir gan Allah) a haram (yr hyn sy'n waharddedig gan Allah) mewn Islam, ac maen nhw'n dod i wybod am y ffordd mae Mwslimiaid yn gwisgo. Mae'r pethau hyn yn gwneud Rhys a Sara yn ymwybodol o'r amrywiaeth sydd yng nghredoau ac arferion Islam.

### Yr elfennau sylfaenol

Ystyr 'Islam' yw 'ymostwng' i ewyllys Allah (Duw), a Mwslim yw rhywun sy'n ymostwng i ewyllys Allah. Yn y llyfr Archwilio Islam, mae Rhys a Sara yn cael eu cyflwyno i Islam Sunni, y traddodiad sy'n cael ei arfer gan tua 85% o Fwslimiaid yn y byd heddiw. Er bod gwahanol fynegiant o Islam Sunni, mae'n bosib clustnodi nifer o gredoau ac ymarferion canolog sy'n rhoi man cychwyn i athrawon a phlant sy'n archwilio Islam.

Mae Mwslimiaid Sunni yn credu:

- yn unoliaeth ac undod llwyr Allah, yr un a greodd ac sy'n cynnal y bydysawd;
- yn nyletswydd y Mwslim i ymostwng i ewyllys Allah, sy'n dod ag undod, heddwch, a chytgord yn y byd hwn, ac ym Mharadwys yn y byd a ddaw;
- yng nghanolrwydd y Qur'an fel y datguddiad llawnaf, cywiraf a therfynol o ewyllys Allah yn hanes dynoliaeth;
- yng ngwerth y traddodiadau sy'n ymwneud â'r hyn mae'r Proffwyd Muhammad yn ei ddweud a'i wneud, ac sy'n rhoi arweiniad i Fwslimiaid.

Mae Mwslimiaid Sunni yn ymarfer y Pum Piler:

- Shahadah: y datganiad ffydd Mwslimaidd sy'n cael ei adrodd. Mae'n arddel nad oes un Allah ar wahân i Allah ac mai proffwyd i Allah yw Muhammad;
- Salah: y gweddiâu defodol gosod gorfodol sy'n cael eu hoffrymu bum gwaith bob dydd;
- Zakah: y rhodd elusen orfodol;
- Sawn: yr ymprydio gorfodol yn ystod mis Ramadan;
- Hajj: un bererindod i Makkah, sy'n orfodol, os yw'n bosib cwrdd â'r amodau penodol.

## Pennod I Ymweld â mosg

### Y mosg

Mosg yw'r lle mae Mwslimiaid yn:

- ymarfer gweddi gynulleidfaol (salah);
- derbyn addysg Islamaidd;
- dod ynghyd fel cymuned.

Ystyr yr enw mosg yw 'lle i ymostwng', a'i brif bwrpas yw darparu lle glân a thawel i Fwslimiaid ymostwng mewn gweddi o flaen Allah. Mae nifer o'r nodweddion sydd i'w gweld y tu mewn a thu allan i fosc yn cyfeirio at weddi.

Mae Rhys a Sara yn ymweld â mosg sydd wedi ei godi'n bwrpasol gyda minarét (tŵr) a chromen. O ben y minarét mae swyddog o'r mosg yn draddodiadol yn galw Mwslimiaid mewn Arabeg i ddod i weddio bum gwaith y dydd. Mae'r adhan (yr alwad i ddod i weddio) yn cynnwys credoau pwysicaf Islam:

Duw yw'r mwyaf (Allahu Akbar) - 4 gwaith  
 Rwyf yn tystio nad oes Duw ond Allah - 2 waith  
 Dewch i weddio - 2 waith  
 Dewch i ddiogelwch - 2 waith  
 Duw yw'r mwyaf (Allahu Akbar) - 2 waith  
 Nid oes Duw ond Allah – unwaith

Does dim rhaid i Fwslimiaid weddio mewn mosg; byddai unrhyw fan glân a thawel yn dderbyniol. Yr unig ofyniad yw i'r dynion fynd i'r mosg ar gyfer y gweddiau canol dydd ar ddydd Gwener (y gweddiau Jumah).

Mae Rhys a Sara yn paratoi eu hunain cyn mynd i mewn i'r mosg, trwy:

- dynnu eu hesgidiau;
- ymolchi;
- gorchuddio'u pennau.

Am fod y bobl yn tynnu eu hesgidiau, mae'r man gweddio'n cael ei gadw'n lân. Mae'n ofynnol ymolchi'n ddefodol a gorchuddio'r pen cyn gweddio a chyn adrodd o'r Qur'an. Nid yn gymaint am fod y mosg yn lle cysegredig y bydd y paratodau hyn yn cael eu gwneud ond oherwydd natur y defodau eu hunain. Tra bydd Mwslimiaid yn gweddio ac yn adrodd rhannau o'r Qur'an, maen nhw ym mhresenoldeb Allah, ac mae'n rhaid iddyn nhw baratoi eu hunain yn briodol. Mae'r un paratodau'n cael eu gwneud ble bynnag y bydd y defodau'n digwydd.

### Gweddi (salah)

Salah yw ail biler Islam. Mae Rhys a Sara yn cael eu harwain i'r brif neuadd weddio lle maen nhw'n gwylio grŵp o ddynion yn gweddio. Mae gofyn i bob person ifanc ac oedolyn, gwryw a benyw, weddio'r salah bum gwaith bob dydd, ar doriad y dydd, wedi canol dydd, yn hwyr y prynhawn, ar ôl machlud haul, ac yn y nos.

Mae Sara a Fatima yn sefyll y tu allan i'r drysau am fod y merched yn gweddio mewn lle ar wahân i'r dynion, naill ai ar y balconi sy'n edrych dros y brif neuadd weddi neu mewn ystafell ar wahân. Mae hyn yn arbed rhag tynnu sylw yn ystod y gweddio. Wrth weddio, mae'r Mwslimiaid yn adrodd geiriau Arabeg tra byddan nhw'n gwneud symudiadau penodol. Fe welwch chi lun y dynion yn y stori yn gwneud rhai o'r symudiadau, er, mewn bywyd go iawn, fe fyddai'r Mwslimiaid yn gwneud yr un symudiadau ar yr un pryd gyda'i gilydd. Mae'r symudiadau'n symbol bod y bobl yn ymostwng i ewyllys Allah, ac mae'r geiriau sy'n cyd-fynd â'r symudiadau'n adrodd am unoliaeth, gogoniant, a mawredd Allah. Bydd Mwslimiaid yn gweddio ochr yn ochr â'i gilydd, waeth beth yw eu statws cymdeithasol na'u hil; does dim llefydd o anrhydedd. Mae hyn yn darlunio'r gred Fwslimaidd ganolog sef bod pob un yn gyfartal o flaen Allah.

Mae'r salah yn helpu Mwslimiaid i ddsygu sut i:

- ymostwng i ewyllys Allah trwy ddatblygu disgyblaeth ac agwedd briodol;
- canoli eu bywyd ar Allah;
- moli ac addoli Allah;
- cryfhau ac uno'r gymuned Fwslimaidd, yn lleol ac yn fyd-eang.

### Yr ysgol fosc (madrassah)

Mewn madrassah mae Mwslimiaid yn dysgu:

- Arabeg, a sut i ddarllen y Qur'an yn yr iaith Arabeg;
- mwy am gred ac arferion Islam.

Mae Rhys a Sara yn sylwi ar wers yn yr ysgol fosc (madrassah) lle mae'r genethod yn dysgu sut i ddarllen y Qur'an yn yr iaith Arabeg. Iaith Semitig yw Arabeg, ac mae'r genethod yn darllen y testun o'r dde i'r chwith, ac yn symud o 'gefn' y llyfr i'r 'tu blaen'. Bydd Mwslimiaid yn dysgu sut i adrodd y Qur'an mewn Arabeg, am eu bod yn credu bod Allah eisiau iddyn nhw ddarllen y llyfr yn uchel er mwyn i bawb ei glywed yn yr iaith y cafodd ei ddatguddio i'r Proffwyd Muhammad. Ystyr yr enw 'Qur'an' yw 'adrodd', ac fe ofynnwyd i Muhammad adrodd y datguddiadau sydd yn y Qur'an fel y cawson nhw'u datguddio iddo ef. Bydd adrodd y Qur'an yn aml yn cael ei ddisgrifio fel ffurf y purydd o gerddoriaeth mewn Islam, am ei fod yn canolbwyntio ar Allah ac yn gogoneddu Allah. Yn y byd Islamaidd mae cyngherddau adrodd a chystadlaethau adrodd lle bydd adroddwyr o fri yn perfformio, ac mae CDau o'u cerddoriaeth yn cael eu gwerthu.

Mewn gwledydd heb fod yn wledydd Mwslimaidd, fel Prydain, mae'r mosgiau'n helpu i gadw Mwslimiaid mewn cysylltiad â'u traddodiadau crefyddol a diwylliannol yn ogystal â gyda'i gilydd.

## Gweithgareddau

### **Cymysgu a matsio**

Torrwch allan y naw bocsydd ar y daflen waith 'Ysgrifennu Stori', ac yna torrwch bob bocsy yn dri darn: y pennawd, y wybodaeth a'r llun. Cymysgwch yr holl rannau a'u rhoi mewn amlen. Rhannwch y plant yn barau neu grwpiau gan roi amlen i bob grŵp neu bâr. Bydd gofyn i'r plant fatsio'r pennawd, y wybodaeth a'r llun yn gywir.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Ysgrifennu Stori', (fe allech chi addasu'r stori fel y mynnwch chi i unrhyw genre, fel dyddiadur neu erthygl bapur newydd).

Gweithgaredd arall yn seiliedig ar y daflen waith 'Ysgrifennu Stori': torrwch allan y naw bocsy a gofynnwch i'r plant rannu'r bocsys yn ôl tri grŵp:

- bod yn lân
- gweddio ar Allah
- dysgu am Islam

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r plant feddwl am y cwestiwn canlynol:

- Pa un o'r tri gweithgaredd yma ydych chi'n feddwl yw'r pwysicaf, a pham?

Does dim ateb cywir i'r cwestiwn yma: mae'r pwyslais ar y syniadau ac ansawdd y ddatl. Byddai dysgu'r plant yn cael ei gyfoethogi pe bydden nhw'n cael cyfle i weld copi o'r Qur'an, a'r stand sy'n ei ddal, gweld y sgarffiau, a'r capiau gweddio, a chael cyfle i wrando ar CD o ddarlenniadau o'r Qur'an.

### **Pam fod Mwslimiaid yn gweddio?**

Edrychwch ar y daflen waith 'Ymarfer ystum gweddi Mwslimiaid', ac yna gwnewch y dasg ganlynol:

Mae Mwslimiaid yn credu mai Allah sydd wedi creu popeth a does dim yn digwydd oni bai bod Allah eisiau iddo ddiwydd. Mae Allah mor fawr, fel bod Mwslimiaid yn ceisio rhoi Allah, a'r hyn y mae Allah ei eisiau, yng nghanol eu bywydau. Wrth weddio, fel yma, bum gwaith y dydd, caiff

Mwslimiaid eu hatgoffa o Allah a'u dyletswydd i ddilyn ewyllys Allah.

Gofynnwch i'r plant ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pam rydych chi'n meddwl bod Mwslimiaid yn ymolchi mor dda cyn gweddio?
- Pa symudiadau y mae Mwslimiaid yn eu gwneud wrth weddio, sy'n dangos eu bod yn meddwl bod Allah yn bwysig?
- Dychmygwch y byddai'n rhaid i chi weddio fel yma, bum gwaith y dydd. Pa anawsterau fydddech chi'n eu cael i wneud hynny yn yr ysgol?
- Sut mae gweddio bum gwaith y dydd yn atgoffa Mwslimiaid o'u dyletswydd i ddilyn ewyllys Allah?

### **Ymweld â mosg**

Evch i ymweld â mosg a chwiliwch am y manau sy'n cael eu nodi yn y stori. Sut mae'n wahanol i lefydd sydd yn y llyfr, a beth sydd yn un fath?

### **Baneri**

Edrychwch ar faneri gwahanol wledydd Prydain ac archwiliwch eu symbolaeth (neu canolbwyntiwch ar eich baner genedlaethol). Darparwch gasgliad o luniau baneri o wahanol wledydd y byd, yn cynnwys baneri sydd â symbolau Mwslimaidd amlwg arnyn nhw fel y lleuad gilgant. A yw'r plant yn gallu adnabod baneri gwledydd Mwslimaidd? Fe fydd y lleuad gilgant i'w gweld yn aml ar faner gwlad Fwslimaidd oherwydd bod Islam yn cael ei chydabod yn bwysig yn y wlad honno. Bydd baneri'n dangos yr hyn y mae pobl yn ei gredu sy'n cynrychioli'r wlad.

Yn aml, mae'r dyluniad yn hen iawn. Gofynnwch i'r plant, mewn grwpiau, i ddylunio eu baner fodern eu hunain i'w gwlad. Bydd angen iddyn nhw ystyried yn ofalus beth maen nhw'n ei feddwl a fyddai'n cynrychioli eu gwlad heddiw, ac egluro pam.

## Pennod 2 Dathlu Eid-ul-Fitr

### Gŵyl Eid-ul-Fitr

Mae gŵyl Eid-ul-Fitr yn dathlu diwedd cyfnod ymptydio'r Ramadan. Bydd Mwslimiaid yn diolch i Allah am y budd maen nhw wedi'i gael wrth ymptydio. Caiff yr ŵyl Eid-ul-Fitr ei dathlu trwy:

- weddi gynulleidfaol yn y mosg;
- rhoi cardiau ac anrhegion i ffrindiau ac aelodau'r teulu;
- rhannu pryd bwyd arbennig â'r teulu (ganol dydd ran amlaf);
- gwisgo dillad newydd neu ddiwad gorau;
- rhoi zakah (elusen) i ddarparu ar gyfer pobl dlawd.

Mae Rhys a Sara yn gwneud cerdyn Eid i'w roi i'w ffrindiau, Rashid a Fatima. Mae'n bosib gwneud nifer o wahanol ddarluniau ar gerdyn Eid, er enghraifft:

- llun mosg;
- llun blodyn neu batrwm blodau;
- patrwm geometrig;
- symbol Islamaidd e.e. lleuad gilgant a seren;
- caligraffeg Islamaidd.

Mae llun blodyn neu batrwm blodau yn adlewyrchu Paradwys, sy'n draddodiadol yn cael ei darlunio fel gardd.

Mae patrwm geometrig yn portreadu cred ganolog Islamaidd sy'n ymwneud â tharddiad, natur a phwrpas y bydysawd. Mae'r patrwm yn dechrau o smotyn sy'n cynrychioli Allah. O'r smotyn yma bydd patrymau geometrig cymhleth yn cael eu creu, sy'n cynrychioli creadigaeth Allah. Allah yw'r man cychwyn, does dim yn digwydd heb i Allah fod yn ei ewyllysio. Mae'r patrymau'n cynrychioli'r bydysawd delfrydol, sy'n adlewyrchu rhinweddau ei greawdwr: unoliaeth, cydbwysedd, harmoni, a thangnefedd. Ond, mae pobl yn torri ac yn difrodi rhannau o'r patrwm trwy ymddwyn mewn ffyrdd sy'n groes i ewyllys Allah. Yn aml, fe fydd gwall bwriadol yn cael ei gynnwys yn y patrwm i atgoffa pobl mai dim ond Allah sy'n berffaith.

Yn aml, bydd caligraffeg Islamaidd hardd, yn yr iaith Arabeg, yn nodwedd amlwg ar y cerdyn, yn dymuno gŵyl hapus i'r un sy'n ei dderbyn. Caiff yr iaith Arabeg ei hysgrifennu o'r ochr dde i'r ochr chwith, ac mae cerdyn Arabeg yn agor o'r cefn i'r tu blaen.

Mae llawer o deulu estynedig Rashid a Fatima yn bresennol ar gyfer y dathliadau Eid. Mewn llawer o wledydd y Gorllewin, fel Prydain, y duedd yw canolbwyntio ar y teulu cnewyllol. Mewn Islam, mae arwyddocâd arbennig i'r teulu am ei fod yn ffurfio sylfaen gadarn i gymuned Fwslimaidd gref.

### Ymptyd y Ramadan

Y sawn (yr ymptyd yn ystod mis Ramadan) yw trydydd Piler Islam. O doriad gwawr hyd fachlud haul, ddylai dim byd gael ei roi i mewn yn y corff – mae hyn yn cynnwys bwyd, diod, mwg sigarennau, ac unrhyw feddyginiaeth a brechiadau sydd heb fod yn hanfodol. Bob nos yn ystod yr ymptyd, ar ôl machlud haul, mae pryd bwyd teuluol, sy'n torri'r ymptyd. Bob bore, yn ystod yr ymptyd, cyn toriad y wawr, mae brecwast ysgafn.

Mae rhai aelodau o deulu Rashid a Fatima heb fod yn ymptydio. Yn y Qur'an, mae'n nodi bod rhai pobl yn cael eu heithrio, fel y rhai ifanc iawn, neu rai sy'n hen iawn, merched beichiog neu ferched sy'n bwydo o'r fron, pobl sy'n wael, a'r rhai sy'n teithio.

Bydd Mwslimiaid yn dilyn calendr sy'n berthynol i'r lleuad, ac mae hynny'n golygu bod Ramadan yn ymptyd symudol. Felly, mae'r nifer o oriau sy'n cael eu treulio bob dydd yn ymptydio yn amrywio yn ôl pa adeg o'r flwyddyn yw hi. Er enghraifft, fe fyddai ymptyd ym Mhrydain, yn ystod mis Mehefin yn fwy anodd nag ymptyd yn ystod mis Rhagfyr, ac mae Mwslimiaid sy'n byw mewn lleoliadau yn eithafion gogledd neu de'r ddaear yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan y nifer o oriau sydd o olau dydd. Yn aml, mewn sefyllfaoedd ansicr neu eithafol, fe fydd Mwslimiaid yn dilyn amseroedd yr ymptydio ym Makkah.

Mae'r ymptydio yn ystod mis Ramadan yn rhoi'r cyfle i Fwslimiaid:

- ymostwng i ewyllys Allah;
- teimlo empathi â phobl dlawd, a'r empathi hwn sy'n eu hysgogi i roi elusen;
- rhoi diolch i Allah am y Qur'an;
- adrodd y Qur'an, a myfyrio arno;
- arfer hunanreolaeth ar y corff;
- puredigaeth ysbrydol;
- cryfhau ac uno'r gymuned Fwslimaidd, yn lleol ac yn fyd-eang.

Mae Mwslimiaid yn credu mai Allah yw'r ffynhonnell a'r un sy'n darparu pob peth, yn cynnwys cyfoeth. Mae rhodd Allah o gyfoeth yn gyfrifoldeb: mae angen defnyddio cyfoeth yn ddoeth er budd y gymuned gyfan. Mae'r ymptyd yn atgoffa Mwslimiaid o'u dyletswydd tuag at aelodau llai ffodus cymdeithas.

Bydd Mwslimiaid ledled y byd yn ymptydio gyda'i gilydd, ac mae hyn yn uno ac yn cryfhau'r gymuned Fwslimaidd fyd-eang. Mae Ramadan yn amser i ganolbwyntio ar Allah, ac ymostwng i ewyllys Allah. Mae Fatima yn dweud y dylai Mwslimiaid geisio peidio

â bod yn ddig, na ffraeo, na dweud celwyddau. Mae hyn yn arwyddocaol am fod emosiynau negyddol yn tarfu ar y canolbwyntio hwn, yn achos y rhai sy'n gwneud y pethau hynny a'r bobl sydd o'u cwmpas ar y pryd ac yn ymwneud â nhw.

Mae taid Rashid a Fatima yn cyflwyno Rhys a Sara i un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes Mwslimiaid, sef Noson y Grym, sy'n nodi hanes

Allah yn datguddio rhan gyntaf y Qur'an i'r Proffwyd Muhammad, trwy gyfrwng yr Angel Gabriel. Derbyniodd Muhammad ddatguddiadau eraill o'r Qur'an ar ôl hynny, dros 22 o flynyddoedd. Mae Mwslimiaid yn credu mai anrheg fwyaf Allah i ddynoliaeth yw'r Qur'an. Dyna egluro pam y caiff cymaint o bwyslais ei roi ar ddarllen y Qur'an, a myfyrio arno, a diolch i Allah amdano.

## Gweithgareddau

### **Gwyliau ledled traddodiadau crefyddol**

Gweithiwch ar galendr neu lyfr o wahanol wyliau'r holl grefyddau. Fe fyddai gofyn i hwn fod ar ffurf ffeil lle gallwch chi ychwanegu tudalennau fel byddwch chi angen i'w gael mewn trefn gronolegol.

Siaradwch am ba mor bwysig yw trefnu'r deunydd fel y gall pobl ddod o hyd i'r wybodaeth y byddan nhw'i hangen, yn gyflym. Gyda'r plant, penderfynwch ar drefn ddefnyddiol i'r llyfr, er enghraifft, fe allai penawdau adrannau fod yn ymwneud â phethau fel: storïau, sut y caiff yr ŵyl ei dathlu heddiw, resipis, ac ati.

### **Cerdyn ar gyfer pob achlysur**

Casglwch ynghyd wahanol fathau o gardiau sydd ar gyfer gwahanol, achlysuron. Gofynnwch i'r plant eu dosbarthu'n wahanol bentyrrau, gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

pen-blwydd	profedigaeth	genedigaeth
cyffredinol	dyweddiad neu briodas	
lwc dda	llongyfarchiadau	
Nadolig	ymddeoliad	

Yna, ar gyfer pob categori, bydd angen i'r plant glustnodi rhai o'r pethau sydd ar y cardiau sy'n eu cysylltu â'r achlysur penodol hwnnw. Gall y plant ystyried dau gwestiwn arall hefyd:

- Pam rydych chi'n meddwl fod pobl yn anfon cardiau?
- Sut rydych chi'n meddwl y mae pobl yn teimlo pan fyddan nhw'n derbyn y cardiau?

Caiff cardiau eu hanfon am wahanol resymau. Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gwneud cerdyn Eid'. Ar y daflen waith mae'n awgrymu addurno'r cerdyn â phatrwm Islamaidd. Archwiliwch gyda'r

plant pa addurniadau eraill a fyddai'n bosib iddyn nhw'u defnyddio ar y cerdyn, os hoffen nhw. Cysylltwch hyn â'r gwaith blaenorol ar gardiau - mae'r cerdyn Eid (gŵyl) yn dathlu diwedd llywyddiannus yr ymryd Mwslimaidd a'r holl bethau sydd wedi cael eu dysgu wrth wneud hynny. Tybed sut mae Mwslimiaid yn teimlo wrth iddyn nhw dderbyn y cardiau yma?

### **Dylunio patrwm**

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Creu lluniad o batrwm wrth raddfa'. Wedi i'r plant orffen eu patrymau, cyflwynwch y syniad bod Mwslimiaid yn credu mai dim ond Allah sy'n berffaith. Mae Mwslimiaid yn ceisio gwneud yr hyn y mae Allah eisiau iddyn nhw'i wneud, ond fe fyddan nhw'n gwneud camgymeriadau. Nid yw pobl yn berffaith. Ond, mae'r Qur'an yn atgoffa Mwslimiaid ar ddechrau pob pennod (ar wahân i un) bod Allah yn dosturiol a thrugarog. Bydd Mwslimiaid yn gwneud camgymeriad bwriadol mewn patrwm i'w hatgoffa nad ydyn nhw'n berffaith.

Gofynnwch i'r plant fynd yn ôl at eu patrwm a gwneud un camgymeriad bwriadol ynddo i ddarlunio'r athrawiaeth yma.

Gall y plant fyfyrion ymhellach ar hyn trwy ei berthnasu â'ubywydauehunaina'r camgymeriadau y byddan nhw'n eu gwneud. Er enghraifft, fe allen nhw feddwl am un amser pan wnaethon nhw gamgymeriad. Sut roedden nhw'n teimlo pan wnaethon nhw sylweddoli eu bod wedi gwneud camgymeriad? Beth oedd ymateb pobl eraill pan ddaethon nhw i wybod am y camgymeriad hwnnw? Sut y cafodd y sefyllfa ei datsys? Beth wnaethon nhw'i ddysgu o'u camgymeriad?



## Pennod 3 Deall y Qur'an a Muhammad

### Deall rheolau

Yn y bennod hon, mae ffynonellau awdurdod Islam (y Qur'an a'r Proffwyd Muhammad) yn cael eu cymharu â ffynonellau awdurdod mewn ysgol (rheolau ysgol ac athrawon). Caiff rheolau eu llunio i helpu pobl fyw gyda'i gilydd yn heddychlon ac yn adeiladol. Ond, mae deall rheolau a byw yn unol â'r rheini'n anodd; mae angen pobl gymwys i'w dehongli. Yn yr ysgol, mae athrawon yn helpu plant i ddeall rheolau'r ysgol ac i fyw yn unol â rheolau'r ysgol. Mewn Islam, mae'r Proffwyd Muhammad yn helpu Mwslimiaid i ddeall rheolau Allah ac i fyw yn unol â rheolau Allah, sydd i'w cael yn y Qur'an.

Mae'r Pum Piler yn bum rheol bwysig mewn Islam. Roedd tŷ Arabaidd traddodiadol yn cael ei gynnal gan bum piler, a heb y pileri fe fyddai'r adeilad yn cwmpo. Yn yr un modd mae tŷ Islam yn cael ei gynnal gan y Pum Piler, a heb y rhain fe fyddai Islam yn cwmpo. Y piler cyntaf yw'r Shahadah, sef datganiad y Mwslim o ffydd: Nid oes Duw ond Allah a Muhammad yw Proffwyd Allah. Y gred hon yw'r ysgogiad sy'n sail i bob gweithred ddynol, yn cynnwys y pedwar piler ymarferol: gweddi, rhoi elusen, ymprydio, a phererindod.

### Y Qur'an: llyfr ffynhonnell ar gyfer rheolau

Mae Rashid a Fatima yn rhoi parch mawr i'r Qur'an Arabeg, am fod Mwslimiaid yn credu mai gair Allah yw'r Qur'an, a phrif ffynhonnell ewyllys Allah.

Caiff y parch ei ddangos trwy:

- gadw'r Qur'an mewn lle nad oes yr un llyfr arall yn uwch nag ef;
- gorchuddio'r Qur'an gyda defnydd, i'w ddiogelu pan na fydd yn cael ei ddefnyddio;
- perfformio'r ddefod o ymolchi (wudu neu ghusl) cyn cyffwrdd y Qur'an, neu cyn adrodd o'r Qur'an;
- gorchuddio'r pen cyn cyffwrdd y Qur'an, neu adrodd o'r Qur'an;
- defnyddio stand arbennig o'r enw kursi i ddal y Qur'an tra bydd yn cael ei ddarllen;
- gofalu nad yw'r Qur'an yn cael ei adael ar agor pan na fydd rhywun yn ei ddarllen.

### Y Proffwyd Muhammad: dehonglydd a phatrwm ymddygiad delfrydol

Mae Rhys a Sara yn ystyried un o'r prif broblemau sy'n ymwneud â rheolau yn y Qur'an: sut y gallwch chi fod yn sicr bod pobl wedi'u deall yn iawn, ac wedi'u cymhwyso'n briodol i'w bywydau? Mae Mwslimiaid yn credu bod y Proffwyd Muhammad yn y sefyllfa orau i ddeall a chymhwyso rheolau Allah yn y Qur'an am fod Allah wedi datguddio'r Qur'an i Muhammad.

Caiff Muhammad ei ystyried yn Fwslim perffaith ac yn batrwm ymddygiad.

Mae Mwslimiaid yn credu bod Allah, dro ar ôl tro, trwy hanes dynoliaeth, wedi anfon proffwydi i ddweud wrth bobl am ewyllys Allah. Y proffwyd cyntaf oedd Adda, y dyn cyntaf, ac ymysg y proffwydi eraill roedd cymeriadau enwog sy'n cael eu cydnabod gan Iddewon a Christnogion hefyd, fel Ibrahim (Abraham), Isma'il (Ishmael), Musa (Moses), Dawud (Dafydd), ac Isa (Iesu). Cafodd rhai o'r proffwydi hyn lyfr yn cynnwys ewyllys Allah. Er enghraifft, cafodd Musa (Moses) y Taurat (Torah), a chafodd Isa (Iesu) yr Injil (Efengylau). Caiff y proffwydi hyn eu parchu'n fawr mewn Islam, er bod rhai pobl yn credu bod y llyfrau a gawson nhw wedi'u hystumio a'u newid gan y cymunedau y rhoddwyd y llyfrau iddyn nhw.

Mae lle arbennig i'r Proffwyd Muhammad mewn Islam gan fod Mwslimiaid yn credu mai ef oedd y proffwyd olaf a anfonwyd gan Allah, a Muhammad oedd y proffwyd a gafodd y datganiad llawnaf a therfynol o ewyllys Allah – sef y Qur'an. Yn wahanol i'r llyfrau a roddwyd i'r proffwydi eraill, mae'r Qur'an wedi'i gadw'n union fel yr oedd. Mae hyn yn golygu nad oes angen un datguddiad na phroffwyd arall.

### Dilyn esiampl y Proffwyd Muhammad

Mae Fatima yn cyflwyno Rhys a Sara i storïau am y Proffwyd Muhammad. Yr enw ar y storïau yma yw hadith ac maen nhw'n cofnodi geiriau a gweithredoedd y Proffwyd Muhammad pan oedd yn fyw. Gan fod Muhammad yn batrwm ymddygiad perffaith i Fwslimiaid, mae gwybod sut roedd Muhammad yn deall ac yn byw yn ôl ewyllys Allah yn bwysig iawn. Felly, mae'r hadith yn cael eu defnyddio gan lawer o Fwslimiaid i egluro pethau sy'n aneglur yn y Qur'an. Mae'r proffwyd Muhammad, yn yr ystyr yma'n dehongli rheolau Allah yn y Qur'an.

Mae Sara'n methu dod o hyd i luniau o Fuhammad yn y llyfr y mae hi'n ei ddarllen, ac mae'n dysgu nad yw Mwslimiaid, fel arfer, yn dangos delweddau o bobl nac anifeiliaid. Y rheswm am hyn yw er mwyn rhwystro pobl rhag cyflawni'n anfwriadol y pechod mwyaf, sy'n cael ei alw'n shirk - sef rhoi rhywun neu rywbeth ar yr un lefel ag Allah. Dyma egluro'n rhannol pam mae arlunwaith Islam mor nodedig, yn canolbwyntio ar galigraffi a phatrymau sydd ag Allah yn ganolog iddyn nhw.

Mae'n bwysig cofio bod y Proffwyd Muhammad yn cael ei barchu'n fawr mewn Islam, ond byth yn cael ei addoli. Allah yn unig sy'n cael ei addoli, ac mae popeth arall yn cyfeirio tuag at Allah ac yn dibynnu ar Allah.

## Gweithgareddau

### **Delfryd ymddwyn**

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Dysgu am Muhammad'.

Mae Mwslimiaid yn credu bod Muhammad wedi byw fel Mwslim perffaith, yn y ffordd y mae Allah eisiau i Fwslimiaid fyw. Mae hyn yn golygu bod Mwslimiaid yn ystyried Muhammad yn esiampl berffaith iddyn nhw ei dilyn. Mae'n batrwm ymddwyn iddyn nhw. Yn y stori, mae Rhys a Sara yn dysgu bod Mwslimiaid wedi ceisio casglu'r holl storïau am fywyd Muhammad i'w helpu nhw i ddilyn ei esiampl.

Holwch y plant pwy y bydden nhw'n hoffi ei ddilyn fel patrwm ymddwyn (pobl y maen nhw'n eu hedmygu ac yn dymuno bod yn debyg iddyn nhw). Beth maen nhw'n ei ddysgu oddi wrth y bobl yma? Sut bydd hyn yn eu helpu yn eu bywyd? (Mae'n bwysig bod y plant yn gallu dewis unrhyw fath o unigolyn, a'u bod yn teimlo nad oes rhaid iddyn nhw roi math neilltuol o ateb).

### **Archwilio rheolau**

Casglwch ynghyd reolau o wahanol gyd-destunau, er enghraifft, llyfrgell, maes awyr, traeth neu ysgol, ac archwiliwch y rhain gyda'r plant. Ym mhob achos, pam y maen nhw yno? Beth yw eu pwrpas? Mae gan bob cyd-destun wahanol set o reolau sy'n briodol ac yn ystyriol ar gyfer y cyd-destun hwnnw. Mae gan gymunedau crefyddol hefyd reolau i'w dilyn sy'n briodol ac yn ystyriol ar gyfer y grefydd honno.

Rheolau sy'n bwysig mewn Islam yw'r Pum Piler. Y Piler cyntaf yw'r pwysicaf - credu mewn un Duw yn unig, a bod Muhammad yn broffwyd i Dduw (shahadah). Mae Mwslimiaid yn credu bod y pedwar Piler ymarferol arall yn eu helpu i ddysgu sut i fyw yn y ffordd y mae Allah eisiau iddyn nhw fyw. Mewn grwpiau, fe allai'r plant ymchwilio'r pedwar Piler ymarferol - salah (gweddio), sawm (ymprydio), zakah (rhoi elusen), a hajj (mynd ar bererindod), gyda'r nod o gyflawni'r dasg ganlynol:

Er mwyn llunio eich Piler chi, ysgrifennwch y

pethau a fyddai'n helpu Mwslimiaid i wneud y pethau canlynol, (cofiwch fod y rhestr ar gyfer y pedwar Piler ymarferol, ac efallai na fydd rhai pethau'n berthnasol i'ch Piler chi):

- meddwl am anghenion Mwslimiaid eraill llai ffodus;
- teimlo'n rhan o deulu Mwslimaidd mawr;
- teimlo mewn cysylltiad â'u hanes ac â phroffwydi Mwslimaidd pwysig y gorffennol;
- cofio mai Allah yw ffynhonnell pob peth, ac felly'n haeddu ei addoli;
- deall bod Allah yn gweld pob Mwslim yn gyfartal, a does neb yn bwysicach nag unrhyw un arall.

Yna, fe allai'r plant gwblhau'r daflen waith 'Ysgrifennu Pum Rheol'.

### **Rhaglen ddogfen am fywyd Muhammad**

Cynlluniwch raglen ddogfen fer am Muhammad.

Er mwyn helpu gyda'r ymchwil a'r cynllunio, canolbwyntiwch ar y meysydd canlynol.

- Lluniwch linell amser o'i fywyd.
- Beth oedd ei brif athrawiaethau?
- Chwiliwch am rai storïau diddorol am fywyd Muhammad.
- Pam y mae Muhammad yn bwysig i Fwslimiaid heddiw?
- Pwy fyddech chi eisiau ei gyfweld ynghylch bwyd ac athrawiaethau Muhammad? (Mae'n debyg y byddech chi eisiau cynnwys rhywun sy'n Fwslim.)
- Meddyliwch am brops defnyddiol a fyddai'n gwneud eich rhaglen yn ddiddorol, er enghraifft, mapiau, lluniau o Fynydd Hira a llefydd eraill yn Saudi Arabia, y Qur'an (gyda recordiad o rywun yn ei ddarllen), y stand, a'r gorchudd a roir drosto.
- Defnyddiwch gamera fideo i gofnodi'r rhaglen ddogfen (mewn rhannau byr). Fe allech chi ddangos hwn i blant dosbarthiadau eraill yn yr ysgol neu ei osod yng nghyd-destun gwasanaeth.

## Pennod 4 Gofalu am bobl eraill ac am y byd

### Y berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol

Mae Rhys a Sara yn ymweld ag acwariwm gyda'u ffrindiau, Rashid a Fatima, lle maen nhw'n dysgu pa mor gymhleth yw bywyd yn y dŵr a pham or ddibynnol ar ei gilydd yw'r creaduriaid a'r planhigion sy'n byw yn y dŵr. Mae'n bosib ymestyn yr egwyddorion yma i gynnwys gweddill byd natur. Mae Rhys a Sara yn dysgu hefyd am y modd y gall bodau dynol effeithio ar y berthynas fregus sy'n bodoli rhwng pethau byw, a hynny'n aml mewn ffordd ddinistriol.

Mae byd natur yn thema bwysig iawn mewn Islam am fod byd natur yn cael ei gysylltu'n agos iawn â'i greawdwr, Allah. Mae'r Qur'an yn gofyn dro ar ôl tro i Fwslimiaid fyfrio ar berffeithrwydd a rhyfeddodau natur, sy'n cyfeirio at Allah.

It is He who sends down to you water from the sky: from which you have to drink, and from it are trees, for you to pasture your herds. And thereby He brings forth for you crops, and olives, and palms, and vines, and all manner of fruit. Surely in this is a sign for a people who reflect. And He subjected to you the night and the day, and the sun and the moon: and the stars are subjected by His command. Surely in this are signs for a people who understand.

Qur'an 16:10ff

Y pethau pwysicaf y mae Mwslimiaid yn eu credu am y berthynas rhwng natur, Allah, a bodau dynol yw:

- bod natur yn cyfeirio tuag at ei greawdwr, Allah;
- Allah sydd wedi creu popeth sy'n angenrheidiol i gynnal bywyd dynol;
- rhodd gan Allah yw haelioni natur;
- mae bodau dynol yn hollol ddibynnol ar Allah, ac Allah sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion;
- eiddo Allah yw byd natur;
- is-lywodraethwyr i Allah yw bodau dynol yn y byd. Ystyr hynny yw eu bod yn gweithredu ar ran Allah ym myd natur i roi ewyllys Allah ar waith.

Mewn Islam, fe ddylai harddwch, gwychder a haelioni natur gymell synnwyr o barch a gwerthfawrogiad mawr, a ddylai gael ei fynegi yn yr ymateb dynol naturiol o addoliad ac ymostwng i Allah. Mae mawredd Allah bob amser yn cael ei gyferbynnu â'r ffaith bod bodau dynol yn hollol ddibynnol ar Allah.

Mae'r stori am Muhammad a'r camel yn enghraifft

o sut mae Mwslimiaid yn defnyddio storïau a thraddodiadau am y Proffwyd Muhammad fel arweiniad. Mae nifer fawr o storïau am y Proffwyd Muhammad ac anifeiliaid, sy'n dangos parch a chariad y Proffwyd tuag atyn nhw. Mae'r stori hon yn ddefnyddiol iawn am ei bod yn rhoi enghraifft o fodau dynol mewn berthynas â natur, lle mae'r ddwy ochr yn ddibynnol ar ei gilydd, a'r ffordd y mae parchu'r berthynas yn fuddiol i'r ddwy ochr.

### Y berthynas rhwng pobl

Mae Fatima yn dweud wrth Rhys a Sara ei bod hi'n ddyletswydd ar Fwslimiaid i ofalu am ei gilydd. Fe ddylai Mwslimiaid sydd â'r modd i wneud hynny, ofalu am rai sydd mewn angen. Mae'r weithred hon yn seiliedig ar y gred mai rhodd gan Allah yw cyfoeth, ac y dylai cyfoeth gael ei ddefnyddio er budd y gymuned gyfan. Gyda chyfoeth fe ddaw cyfrifoldeb mawr, ac mae Mwslimiaid yn credu y byddan nhw'n cael eu barnu gan Allah ar ba mor dda y byddan nhw wedi ymateb i'r cyfrifoldeb hwn.

Pedwerydd Piler Islam yw zakah (rhwymedigaeth i roi elusen), ac mae hyn yn rhoi cyfle i'r credoau gael eu mynegi'n ymarferol. Mae'r Qur'an yn nodi bod yn rhaid i Fwslimiaid roi: 'Hynny sy'n bosib i chi ei roi!', ac mae hynny'n helpu i gefnogi:

- pobl dlawd;
- rhai anghenus;
- y rhai sy'n casglu ac yn dosbarthu'r zakah;
- rhai sydd wedi troi at Islam;
- rhyddhau Mwslimiaid sy'n garcharorion neu sydd mewn dyled;
- teithwyr y mae'n galed arnyn nhw'n ariannol.

Ystyr y gair zakah yw 'puredigaeth'. Os yw Mwslim yn rhoi'n hael, ac yn yr ysbryd iawn, maen nhw'n credu bod pechodau'r unigolyn hwnnw'n cael eu maddau. Mae rhoi elusen, yn ychwanegol i'r zakah, yn cael ei annog ar adegau eraill hefyd, yn enwedig ar adegau o ddathlu.

Yn y llyfrgell gyhoeddus caiff Rhys a Sara eu cyflwyno i ffordd o roi elusen sy'n dod yn gynyddol boblogaidd, sef trwy roi arian i asiantaethau cymorth Mwslimaidd. Mae asiantaethau cymorth Mwslimaidd yn dechrau ac yn cefnogi llawer o'r math yma o weithgareddau, gweithgareddau sydd yr un fath â gweithgareddau y mae asiantaethau eraill sydd heb fod yn Fwslimaidd yn canolbwyntio arnyn nhw. Dwy asiantaeth cymorth Fwslimaidd gyfarwydd yw Islamic Aid a Muslim Aid.

## Gweithgareddau

### **Ein hamgylchedd**

Mae Mwslimiaid yn credu ei bod hi'n ddyletswydd arnyn nhw i ofalu am fyd natur. Fe fyddan nhw'n cael eu hysgogi i wneud hyn oherwydd eu cred am Allah (gwelwch y nodiadau i athrawon ar y bennod hon). Cerddwch o gwmpas tir yr ysgol, a chwiliwch am ffyrdd sut y gallech chi ofalu am y man hwn lle'r ydych chi'n treulio cymaint o amser. Beth sy'n eich ysgogi chi i fod yn gyfrifol?

### **Gofalu am fyd natur**

Gwnewch y gweithgaredd ar y daflen 'Ysgrifennu drama'.

Dywedodd Muhammad wrth y bobl mai eiddo Allah yw'r anifeiliaid, ac fe ddylai pobl ofalu amdanyn nhw i Allah. Mae'r anifeiliaid yno i bwrpas, ac maen nhw i gyd yn rhan o gynllun Allah ar gyfer y byd. Os yw pobl yn trin anifeiliaid yn iawn, fe fydd y bobl a'r anifeiliaid yn gallu byw a gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae pobl ac anifeiliaid yn gwneud llawer o bethau gyda'i gilydd, ac mae anifeiliaid yn rhoi llawer o bethau i bobl. Gofynnwch i'r plant feddwl am anifeiliaid a fyddai'n ffitio i'r grwpiau canlynol (er mwyn cael gwneud rhywbeth gwahanol gyda'r gweithgaredd yma, fe allech chi roi rhestr o anifeiliaid i'r plant i'w rhoi mewn grwpiau):

anifeiliaid anwes	bwyd	helpu pobl
dillad	chwaraeon	mwynhau natur

Oherwydd y gred am Allah, mae Islam yn addysgu y dylai anifeiliaid gael eu trin yn dda. Pa resymau fydddech chi'n eu rhoi dros drin anifeiliaid yn dda?

### **Gofalu am eraill**

Gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd, chwiliwch am ragor o wybodaeth am asiantaeth cymorth Fwslimaidd (er enghraifft, Muslim Aid neu Islamic Aid). Byddai'r cwestiynau canlynol yn helpu i roi canolbwynt i'r gweithgaredd:

- Oes datganiad o genhadaeth gan yr asiantaeth cymorth sy'n egluro'r hyn mae'n geisio'i wneud?
- Enwch y prosiectau y mae'r asiantaeth cymorth yn ymwneud â nhw.
- Ym mha rannau o'r byd y mae'r asiantaeth cymorth yn gweithio?
- Ym mha ffordd y gall Mwslimiaid gefnogi'r asiantaeth cymorth?

Fe allech chi roi her i rai o'r plant ateb cwestiwn pellach:

- Oes unrhyw beth ar y wefan sy'n pwyntio at gefndir crefyddol yr asiantaeth cymorth (Mwslim)

Gall y plant berthnasu hyn i'w bywydau eu hunain trwy wneud y gweithgaredd, 'Gwneud boccs dal arian', ac fel dosbarth, trwy ddewis asiantaeth cymorth i'w chefnogi.

## Pennod 5 Dysgu am Halal a Haram

### Amrywiaeth mewn arferion Mwslimaidd

Mae Rhys a Sara yn dysgu bod arferion Mwslimaidd yn dibynnu ar:

- sut mae'r Qur'an yn cael ei ddehongli;
- y math o ddiwylliant y mae'r Mwslim yn byw ynddo.

Mae'r ffordd y mae'r Qur'an yn cael ei ddehongli a'r gwahanol ddylanwadau diwylliannol yn cyfrif am lawer o'r amrywiaeth sydd i'w gael mewn arferion Mwslimaidd. Ond, beth bynnag mae'r Mwslim yn ei wneud, fe ddylai fod yn halal (yn cael ei ganiatáu gan Allah) ac nid yn haram (ddim yn cael ei ganiatáu gan Allah).

### Bwyd

Mae Mwslimiaid yn bwyta llawer math gwahanol o fwydydd sy'n adlewyrchu'r gwahanol draddodiadau coginiol o amrywiol ddiwylliannau ledled y byd. Fe fyddai prydau bwyd wedi'u paratoi gan Fwslim o Malaysia yn wahanol iawn i brydau y byddai Mwslim o Morocco yn eu paratoi, er enghraifft. Ond mae Mwslimiaid ledled y byd yn unol yn ôl un gofyniad cyffredin. Mae gofyn iddyn nhw fwyta bwydydd sy'n halal yn ôl chyfraith Islam. Mae amrywiaeth mawr yn y bwydydd y mae Mwslimiaid y byd yn ei fwyta. Mae cyfreithiau Mwslimaidd sy'n ymwneud â bwyd wedi'u sylfaenu ar y rheolau yn y Qur'an sy'n ymwneud â bwyd.

Mae bwydydd sy'n halal yn cynnwys:

- pob math o bysgod;
- pob math o lysiau;
- y cig a'r cynhyrchion eraill sy'n bosib eu bwyta o anifeiliaid sy'n halal ac sydd wedi cael eu lladd yn unol â chyfraith Islam.

Mae bwydydd sy'n haram yn cynnwys:

- cig mochyn;
- gwaed;
- cig anifeiliaid cigysol (ac eithrio'r rhan fwyaf o bysgod ac anifeiliaid y môr);

- y cig a'r cynhyrchion eraill sy'n bosib eu bwyta o anifeiliaid sy'n halal ond sydd heb fod wedi cael eu lladd yn unol â chyfraith Islam;
- alcohol.

Mae rhai Mwslimiaid yn credu bod cig pysgod sydd â'u croen heb fod yn gennog (er enghraifft, pysgod cregyn) a chig amffibiaid hefyd yn haram.

Wrth ladd anifeiliaid yn unol â chyfraith Islam, bydd yr anifeiliaid yn cael eu harchwilio am unrhyw arwydd o afiechyd, yn cael diod o ddŵr, yn cael eu troi i wynebu Makkah, a bydd y geiriau canlynol yn cael eu hadrodd: 'Yn enw Allah, Allah yw'r Mwyaf'. Yna bydd y brif wythien yng ngwddw'r anifail a'r oesoffagws yn cael eu torri ag un toriad â llafn miniog heb fod yn ddanheddog. Mae'r geiriau: 'Yn enw Allah, Allah yw'r Mwyaf,' yn cydnabod bod pob peth sydd wedi'i greu yn perthyn i Allah, a bod caniatâd i Fwslimiaid ladd yr anifail dim ond os byddan nhw'n gwneud hynny yn enw Allah.

Gall dod o hyd i fwydydd sydd yn halal neu'n haram fod yn anodd iawn mewn gwledydd sydd ddim yn wledydd Mwslimaidd, mewn byd sy'n gynyddol yn dibynnu ar fwydydd wedi'u prosesu ac wedi'u paratoi o flaen llaw. Dyma pam y mae cwmnïau sy'n dosbarthu bwydydd sydd wedi'u labelu'n glir fel bwydydd halal yn bwysig.

### Gwisg

Fe welir gwahanol ddehongliadau o'r Qur'an, a gwahanol ddylanwadau diwylliannol, yn y ffordd y mae Mwslimiaid yn gwisgo. Mae'r Qur'an yn nodi beth sy'n halal (yn cael ei ganiatáu), gan hyrwyddo gwyleidd-dra o ran y ffordd y mae dynion a merched Mwslimaidd yn gwisgo. Ond, mae'r ffordd y mae'r gwyleidd-dra yn cael ei ddehongli yn amrywio'n fawr ymysg Mwslimiaid. Mae'n ddiddorol cymharu gwisg Mwslimiaid (gwryw a benyw) o wahanol wledydd, er enghraifft, Indonesia, Pakistan, Palestina, Saudi Arabia, a Mwslimiaid yn gwisgo dilladau fel pobl y Gorllewin.

## Gweithgareddau

### **Map gwahaniaethau mewn Islam**

Trefnwch i arddangos map o'r byd gan nodi'r gwledydd lle mae poblogaeth eang o Fwslimiaid. Darluniwch y map gyda lluniau oddi ary rhyngwrwyd, o fosgiau, lleoliadau a cherfluniau enwog. Fe allech chi hefyd ddangos mathau traddodiadol o wisg mewn gwahanol wledydd Mwslimaidd.

### **Gwisg mewn Islam**

Yn y Qur'an, mae'n nodi y dylai merched a dynion Mwslimaidd wisgo'n weddus. Mae gwahanol Fwslimiaid yn ystyried hyn mewn gwahanol ffyrdd.

Defnyddiwch y rhyngwrwyd i chwilio am y gwahanol ffyrdd y mae merched Mwslimaidd yn gwisgo, ac atebwch y cwestiwn yma:

- Ym mha ffyrdd gwahanol y mae Mwslimiaid yn ystyried 'gwisgo'n weddus'?

Fe allai'r geiriau canlynol eich helpu wrth i chi chwilio'r we (mae'r wybodaeth mewn cromfachau ar gyfer yr athrawon):

- Abaya (dilledyn uchaf yn gorchuddio'r corff cyfan a'r pen, ond sy'n gadael yr wyneb yn y golwg);
- Jilbab (dillad uchaf llac sy'n cael eu gwisgo fel arfer gyda sgarff am y pen);

- Khimar (sgarff i'w roi am y pen);
- Niqab a burqa (yn gorchuddio'r wyneb i gyd);
- Chador (dilledyn uchaf gaiff ei wisgo dros ddillad eraill i orchuddio'r corff cyfan);
- Islamic swimwear neu Islamic sportswear.

**NODWCH.** Mae'n bwysig bod y plant yn gwybod hefyd fod llawer o Fwslimiaid Gorllewinol yn gwisgo gwisgoedd gweddus o steiliau Gorllewinol. Mae nifer o wahaniaethau yn y ffordd y mae Mwslimiaid yn gwisgo, a sut maen nhw'n dehongli beth mae'r Qur'an yn ei ddweud am wisg Mwslimiaid.

### **Rhestr siopa halal**

Prynwch gasgliad o wahanol fwydydd. Ceisiwch gynnwys amrywiaeth o dunnau a phacedi gyda rhestr cynhwysion arnyn nhw, bwyd gyda'r symbol halal arno, a ffrwythau a llysiau ffres. Rhowch ddarn o bapur i'r plant gyda'r pennawd 'Rhestr Siopa Rashid a Fatima' arno. Gofynnwch iddyn nhw glustnodi'r bwydydd a allai fod ar restr siopa Rashid a Fatima. Oedd y plant yn gweld y dasg yn un anodd? Beth oedd yn peri anhawster iddyn nhw?

## Geiriau Allweddol


<b>adhan</b>	yr alwad i weddio	<b>Muhammad</b>	y proffwyd a dderbyniodd y Qur'an gan Allah
<b>Allah</b>	yr enw Islamaidd am Dduw	<b>Mwslim</b>	un sy'n ymostwng i ewyllys Allah
<b>Arabic</b>	iaith Semitig; mae'r Qur'an wedi'i ysgrifennu mewn Arabeg, ac mae'r weddi ddefodol (salah) yn cael ei harwain mewn Arabeg	<b>mosg</b>	man i ymostwng; dyma'r man addoli i Fwslimiaid
<b>Eid-ul-Fitr</b>	yr ŵyl sy'n dathlu diwedd yr ymryd yn ystod mis Ramadan	<b>Ramadan</b>	nawfed mis y flwyddyn Fwslimaidd; dyma'r mis ymrydio
<b>ghusl</b>	defod ymolchi fwy cynhwysfawr nag wudu, sy'n golygu ymolchi yn y bath neu'r gawod cyn gweddio neu ddarllen o'r Qur'an	<b>salah</b>	gweddi: ail Biler Islam
<b>hadith</b>	traddodiadau yn ymwneud â'r hyn a ddywedodd, ac a wnaeth, y Proffwyd Muhammad yn ystod ei fywyd	<b>sawn</b>	yr ymryd yn ystod mis Ramadan: pedwerydd Piler Islam
<b>halal</b>	yn cael ei ganiatáu	<b>Semitig</b>	yn perthnasu i deulu penodol o ieithoedd yn cynnwys Arabeg a Hebraeg
<b>hajj</b>	pererindod i Makkah: pumed Piler Islam	<b>shahadah</b>	y datganiad o gred sy'n tystio nad oes ond un Duw, sef Allah, ac mai proffwyd Allah yw Muhammad: Piler cyntaf Islam
<b>haram</b>	ddim yn cael ei ganiatáu	<b>shirk</b>	y pechod mwyaf difrifol o osod unrhyw beth neu unrhyw un ar yr un lefel ag Allah
<b>Islam</b>	enw'r crefydd y mae Mwslimiaid yn ei dilyn; yn golygu ymostwng (i ewyllys Allah)	<b>Qur'an</b>	y testun cysegredig pwysicaf yn Islam
<b>Jumah</b>	gweddi bnawn Gwener	<b>wudu</b>	ymolchi defodol cyn gweddio neu ddarllen y Qur'an; heb fod mor gynhwysfawr â'r ghusl
<b>madrassah</b>	ysgol Islamaidd sy'n rhan o'r mosg	<b>zakah</b>	rhoi elusen: trydydd Piler Islam
<b>Makkah</b>	y ddinas a'r man pererindod mwyaf cysegredig yn Islam Sunni		
<b>minarét</b>	tŵr y mosg, oddi yno y daw'r alwad draddodiadol i Fwslimiaid ddod i weddio		

# Ysgrifennu stori

Dychmygwch eich bod wedi ymweld â mosg gyda ffrind sy'n Fwslim. Ysgrifennwch stori am eich ymweliad, gan roi manylion am bob rhan welsoch chi, a'r pethau oedd yno. Bydd y lluniau a'r disgrifiadau yma yn eich helpu.

## **cromen**

To crwn sydd i fosc fel rheol. Yn aml, fe fydd wedi'i addurno â phatrymau hardd.



## **minarét**

Yn ymyl y gromen mae tŵr uchel. O'r tŵr yma y bydd yr amserau gweddio'n cael eu galw.



## **rhesel esgidiau**

Er mwyn cadw'r man gweddio'n lân, fe fydd pawb yn tynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn.



## **ystafell ymolchi**

Er mwyn dangos parch at Allah, rhaid i Fwslimiaid fod yn lân i weddio. Maen nhw'n golchi eu dwylo, ceg, wyneb, breichiau a'u traed.



## **ystafell weddio**

Mae'r llawr wedi'i orchuddio â charped, i bobl weddio neu eistedd arno. Bydd y merched yn gweddio yng nghefn yr ystafell, neu mewn ystafell arall.




## **mihrab**

Wrth weddio, mae Mwslimiaid yn wynebu Makkah. Mae lle gwag penodol yn y wal sy'n dangos iddyn nhw pa gyfeiriad i'w wynebu.



## **minbar**

Mae'r imam (arweinydd y mosg) yn sefyll ar ran o'r llawr sy'n uwch, fel bydd y bobl yn gallu ei weld wrth iddo'u haddysgu.




## **madrassah**

Fe fydd Mwslimiaid yn mynd i ysgol i ddysgu darllen yr iaith Arabeg, er mwyn iddyn nhw allu darllen y Qur'an yn yr iaith wreiddiol.



## **llyfrgell**

Mewn sawl mosg, fe welwch chi ystafelloedd astudio neu llyfrgelloedd. Yno, mae llyfrau sy'n rhoi atebion i gwestiynau ar Islam.





# Gwneud sgarff


Mae'r rhan fwyaf o Fwslimiaid yn gorchuddio'u pennau. Bydd y dynion yn gwisgo capiau a'r merched yn gwisgo sgarff am eu pennau. Gwnewch sgarff i chi eich hun.

## Fe fydd arnoch chi angen

darn o ddefnydd      llifyn ffabrig, creonau ffabrig neu binnau ffelt

## Beth i'w wneud

1. Torrwch sribed hir o ddefnydd. (Mae'n bosib prynu hen gynfasau gwyn yn rhad mewn siopau elusen. Cewch sawl sgarff o un gynfas.)
2. Addurnwch y defnydd trwy ei lifo â llifyn ffabrig neu trwy ei liwio â chreonau ffabrig neu binnau ffelt. Os ydych chi'n dewis y creonau ffabrig neu binnau ffelt, dewiswch batrwm sydd â rhyw ystyr Mwslimaidd iddo. Fe allech chi ddylunio patrwm geometregol neu batrwm o'r lleuad a'r sêr. Yn union fel mae'r lleuad a'r sêr yn dangos y llwybr cywir i'w ddilyn yn y nos, mae Mwslimiaid yn credu bod Allah yn dangos iddyn nhw'r ffordd gywir i'w dilyn mewn bywyd. Cofiwch nad yw Mwslimiaid yn gwneud lluniau pobl nac anifeiliaid.
3. Edrychwch ar luniau i ddysgu am wahanol ffyrdd o wisgo'r sgarff am eich pen.



# Ymarfer ystum gweddio Mwslimiaid

Mae Mwslimiaid yn gweddio 5 gwaith bob dydd. Nid peth yn y meddwl yn unig yw gweddi i Fwslimiaid; mae'n ymwneud â'r corff cyfan. Mae geiriau arbennig yn cael eu dweud gyda phob ystum gweddi.


## 1. Bod yn lân

Cyn gweddio, rhaid i Fwslim fod yn lân. Maen nhw'n ymolchi bob dydd, eu corff cyfan. A phob tro cyn gweddio, maen nhw'n golchi eu dwylo, eu ceg a'u gwddw, trwyn, wyneb, breichiau, pen a chlustiau, a'u traed a'u fferau. Wedyn rhaid iddyn nhw ddod o hyd i fan glân lle gallan nhw weddio.




## 2. Wynebu Makkah

Wrth weddio, fe fydd Mwslimiaid bob amser yn wynebu i gyfeiriad Makkah. Caiff y cyfeiriad yma ei nodi yn y mosg. Bydd llawer o Fwslimiaid yn cario cwmpawd gyda nhw i'w helpu i ganfod y cyfeiriad cywir pan fyddan nhw'n gweddio yn rhywle tu allan i fosc.



## 3. Sefyll

Sefwch yn syth. Codwch eich dwylo at eich clustiau. Plygwch eich breichiau dros eich brest, y fraich dde dros y fraich chwith.



## 4. Ymgrymu

Ymgrymwch, gan roi eich dwylo ar eich penliniau. Codwch yn ôl i sefyll yn syth.



## 5. Ymostwng

Penliniwch, yna gwyrwch ymlaen nes bod eich talcen ar y llawr. Codwch am foment, yna gwyrwch ymlaen eto.



## 6. Eistedd

Eisteddwch eto, gan gyfarch y rhai sy'n eistedd bob ochr i chi, a dweud wrthyn nhw, 'Tangnefedd i chi a thrugaredd Allah'.



# Gwneud cerdyn Eid

## 1. Plygu eich cerdyn

Wrth ddarllen Cymraeg neu Saesneg, byddwn yn darllen o'r chwith i'r dde, ac mae llyfrau a chardiau yn agor o'r dde. Caiff yr iaith Arabeg ei darllen o'r dde i'r chwith, felly mae llyfrau a chardiau Arabeg yn agor o'r chwith.



## 2. Ysgrifennu'r cyfarchiad

Cerdyn i ddathlu Eid-ul-Fitr yw hwn.

Fe allech chi ysgrifennu:

Eid Hapus

Gwyl Hapus

neu gyfarchiad Arabeg

عيد مبارك

## 3. Addurno eich cerdyn

Mae patrymau Mwslimaidd yn batrymau cymhleth, hardd iawn. Copiwch un o'r patrymau oddi ar un o'r taflenni gwaith, neu dyluniwch un eich hun.

## 4. Ysgrifennu eich enw

Peidiwch ag anghofio nodi i bwy mae'r cerdyn, a phwy sy'n ei anfon.

عيد مبارك

Mae'r ysgrifen yma'n dweud EID MUBARAK mewn Arabeg.  
Gallwch ei ddargopïo, a'i gopïo oddi tano, yna copiwch yr ysgrifen ar eich cerdyn.

# Cynllunio rhai gweithgareddau ymprydio

I wneud y gweithgaredd yma, fe fyddwch chi angen gweithio gyda rhai o'ch ffrindiau, yn meddwl, trafod ac ysgrifennu.

## Ymprydio yn ystod Ramadan

Bob blwyddyn, yn ystod mis Ramadan, fe fydd oedolion Mwslimaidd sy'n iach yn ymprydio yn ystod oriau golau dydd. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw'n cael unrhyw beth i'w fwyta nac i'w yfed rhwng toriad gwawr a machlud haul, a hynny am ddau ddeg naw o ddyddiau. Mae'n adeg pan fyddan nhw'n dysgu sut beth yw bod eisiau bwyd ac yn sychedig. Mae hyn yn eu hatgoffa pa mor lwcus ydyn nhw eu bod nhw'n cael bwyd a dŵr. Adeg iddyn nhw ddiolch i Allah yw'r cyfnod yma.

Mae'n adeg hefyd i feddwl am bobl eraill. Yn ystod Ramadan, mae Mwslimiaid yn rhoi arian i bobl dlawd sydd heb ddigon o fwyd drwy'r flwyddyn. Yn ystod y cyfnod o ymprydio, mae Mwslimiaid yn ceisio byw bywydau da, heb gweryla, na bod yn ddig, na dweud celwyddau.




Mae'n adeg pan fydd Mwslimiaid angen mwy o orffwys nag arfer. Heb fwyd na dŵr am yr oriau hir o olau dydd, nid yw'n bosib iddyn nhw weithio mor galed ag y maen nhw'n ei wneud yn ystod y misoedd eraill.

Pe byddech chi'n Fwslim, yn ymprydio yn ystod mis Ramadan, beth allech chi ei wneud ar adeg pryd bwyd, yn lle bwyta? Sut gallech chi ddefnyddio'r amser yma mewn ffordd gadarnhaol? Cynlluniwch rai gweithgareddau am wythnos. Fe fydddech chi angen amrywiaeth o weithgareddau, rhai i'ch helpu chi ddysgu mwy am Allah, rhai i helpu pobl eraill, a rhai i'ch helpu chi fod yn rhywun mwy caredig.




# Creu lluniad o batrwm wrth raddfa

Defnyddiwch y grid mawr i gopïo un o'r patrymau yma'n fwy. I wneud y lluniad wrth raddfa, copiŵch bob sgwâr fesul un.



# Ysgrifennu 5 rheol

Mae pum rheol bwysig gan Fwslimiaid i'w cadw. Yr enw am y rhain yw'r Pum Piler. Mae Mwslimiaid yn credu bod Allah wedi rhoi'r Pum Piler iddyn nhw, i'w dysgu sut i fyw.



Dychmygwch eich bod wedi cael y gwaith o benderfynu ar bum rheol ar gyfer grŵp rydych chi'n aelod ohono. (Fe allai'r grŵp fod yn deulu, ysgol, dosbarth, clwb neu grŵp o ffrindiau.) Ysgrifennwch y rheolau y byddech chi'n eu dewis, ynghyd â'ch rhesymau dros eu dewis.

Rheol 1 \_\_\_\_\_  
Rheswm \_\_\_\_\_

Rheol 2 \_\_\_\_\_  
Rheswm \_\_\_\_\_

Rheol 3 \_\_\_\_\_  
Rheswm \_\_\_\_\_

Rheol 4 \_\_\_\_\_  
Rheswm \_\_\_\_\_

Rheol 5 \_\_\_\_\_  
Rheswm \_\_\_\_\_

# Dysgu am Muhammad

Mae Muhammad yn bwysig iawn gan Fwslimiaid. Maen nhw'n credu bod Allah wedi dysgu'r Qur'an iddo, a bod Muhammad wedyn wedi dysgu'r Qur'an i'r rhai oedd o'i gwmpas. Roedd Muhammad yn deall yr hyn oedd yn y Qur'an, ac fe fu'n byw fel Mwslim perffaith.

Defnyddiwch y llyfr stori *Archwilio Islam* i ateb y cwestiynau yma am Muhammad. Chwiliwch mewn llyfrau eraill, neu ar y rhyngwyd, i ddod o hyd i ragor o wybodaeth i'w ysgrifennu.

*Pryd cafodd Muhammad ei eni, ac ym mhle?*

*Pa dasg gafodd Muhammad i'w gwneud?*

*Pam dydyn ni ddim yn gwybod sut un oedd Muhammad, o ran ei olwg?*

# Muhammad



# Ysgrifennu drama

Darllenwch stori Muhammad a'r camel, a gweithiwch gyda thri ffrind i ysgrifennu drama. Dechreuwch ysgrifennu ar y daflen yma, gan barhau ar ddalennau ychwanegol fel byddwch chi angen

## Muhammad a'r camel - stori

Roedd Muhammad yn cerdded mewn gardd ym Madinah. Roedd hi'n ddiwrnod poeth iawn. Roedd y bobl a'r anifeiliaid yn teimlo'r gwres. Gwelodd Muhammad ddyn yn cysgodi dan goeden.

Clywodd Muhammad gamel yn ei ymyl yn gwneud sŵn mawr. Aeth Muhammad ato a'i anwesu'n dyner. Roedd y camel yn crio. Roedd yn denau iawn. Gweithiai'n galed, ond doedd y camel ddim yn cael digon o fwyd a dŵr.

Y dyn oedd yn eistedd o dan y goeden oedd perchennog y camel. Dywedodd Muhammad wrtho mai Allah oedd wedi creu ei gamel, a'i fod yn trin y camel yn greulon iawn. Roedd hi'n ddyletswydd arno i ofalu am y camel. Pe byddai'r camel yn cael digon o fwyd a dŵr, fe fyddai'n gweithio'n well. Roedd yn ddrwg iawn gan y dyn, ac roedd arno gywilydd. Gofalodd am ei gamel yn iawn bob amser wedi hynny. Ac roedd Muhammad yn dweud y gwir! Roedd y camel yn gweithio'n well o lawer wedyn.



## Muhammad a'r camel - drama

Cymeriadau: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Golygfa: \_\_\_\_\_

Llefarydd: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Camel: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Muhammad: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_



# Gwneud bocs dal arian

Mae Mwslimiaid yn credu ei bod hi'n ddyletswydd arnyn nhw i ofalu am ei gilydd. Maen nhw'n rhoi arian i asiantaethau cymorth er mwyn darparu dŵr glân, addysg a gofal iechyd i bobl ym mhob cwr o'r byd. Fe allwch chi helpu pobl sydd mewn angen hefyd. Gwnewch focs dal arian i roi arian mân ynddo, a dechreuwch gasglu arian at asiantaeth cymorth o'ch dewis.

## Fe fydd arnoch chi angen

set adeiladu siapiau 3D

cerdyn

siswrn

addurniadau neu binnau ffelt lliw



pren mesur

pensil

glud neu dâp gludiog

## Beth i'w wneud

1. Dewiswch siâp eich bocs dal arian. Fe allech chi ddewis pyramid, ciwb, ciwboid neu brism.
2. Gwnewch y siâp hwnnw trwy ddefnyddio set adeiladu siapiau 3D, fel Polydrons.
3. Agorwch y siâp yn net gwastad o'r gwrthrych. Fe fydd hyn yn dangos i chi sut i dynnu ei lun eich hun.
4. Tynnwch lun y siâp ar gerdyn. Rhaid i chi fesur yn ofalus fel bod pob wyneb y maint iawn.
5. Os ydych chi'n bwriadu gludio'r bocs at ei gilydd, ychwanegwch dabiau at bob wyneb sydd i'w uno.
6. Ar un o'r wynebau, torrwch slot i chi allu rhoi'r arian i mewn drwyddo.
7. Torrwch y siâp allan, ei addurno a'i gydosod â glud (ar y tu mewn) neu dâp gludiog (ar y tu allan).



# Ysgrifennu rhestr siopa

Cafodd Fatima a Rashid y dasg o fynd i brynu bwyd i'r teulu. Beth ydych chi'n feddwl wnaethon nhw'i brynu? Ysgrifennwch restr siopa ar gyfer teulu Fatima a Rashid. Edrychwch mewn llyfrau resipis yn y llyfrgell leol i weld pa gynhwysion sydd mewn bwyd Indiaidd, a rhowch y rhain ar y rhestr.

Pe byddech chi'n siopa ar gyfer eich teulu chi, beth fyddech chi angen ei brynu? Ysgrifennwch restr siopa ar gyfer eich teulu chi. Cymharwch y ddwy restr.



## Rhestr siopa Fatima a Rashid

## Fy rhestr siopa i

Roedd Fatima a Rashid yn mynd i siop arbennig oedd yn gwerthu bwyd halal. Ble byddech chi'n mynd i siopa?

Rydw i'n siopa yn \_\_\_\_\_

# Gwneud melysion datys

Y dathliad ar ddiwedd Ramadan, y mis o ymptydio, yw Eid-ul-Fitr. Fel rhan o'r ŵyl, mae'r plant yn cael diwrnod o wyliau o'r ysgol. Maen nhw'n cael dillad newydd i'w gwisgo. Yn y bore, maen nhw'n mynd i'r mosg i weddio. Wedyn maen nhw'n mynd i ymweld â'u teuluoedd a'u ffrindiau, gan fynd ag anrhegion a chardiau gyda nhw, efallai. Mae'n bosib y byddan nhw'n cael parti, neu'n bwyta melysion arbennig.


Mae palmwydd datys yn goed sy'n tyfu'n gyffredin yn Arabia, y wlad lle'r oedd Muhammad yn byw. Dyma resipi melysion datys.

## Fe fydd arnoch chi angen

datys (heb gerrig)

dŵr

cnau neu hadau



## Beth i'w wneud

1. Rhowch y datys mewn sosban a phrin eu gorchuddio â dŵr.
2. Gyda help oedolyn, coginiwch y datys yn araf ar wres isel, nes eu bod yn feddal a hufennog. Fe fydd angen i chi eu troi'n gyson â llwy bren, i arbed iddyn nhw lynu yn y sosban.
3. Gadewch y gymysgedd i oeri.
4. Golchwch eich dwylo! Cymerwch ychydig o'r gymysgedd, llond llwy ar y tro, a'i rolïo'n beli.
5. Rholiwch y peli wedyn mewn cnau wedi'u malu'n fân. (Neu, os oes rhywun ag alergedd cnau, rholiwch nhw mewn hadau sesame.)





# Chwilio'r rhyngrwyd

Mae llawer o wybodaeth i'w gael oddi ar y rhyngrwyd, ond mae angen i chi wybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth. Dyma rai canllawiau.

1. Mae rhai cwmnïau'n darparu peiriannau chwilio i'ch helpu chi â hyn, fel 'google' ([www.google.com](http://www.google.com)) neu [www.yahoo.co.uk](http://www.yahoo.co.uk) neu [www.msn.co.uk](http://www.msn.co.uk). Gofynnwch i'ch athro neu'ch athrawes pa un sydd orau ganddo ef neu hi.
2. Ar y dudalen ryngrwyd, fe fydd blwch i chi deipio geiriau allweddol ynddo. Os byddwch chi'n teipio gair cyffredinol (e.e. Islam) fe welwch chi fod miloedd o erthyglau ar gael. Os teipiwch chi eiriau mwy penodol bydd llai o erthyglau, ac fe fydd hi'n haws i chi fynd trwyddyn nhw.
3. Yn nesaf, fe fyddwch chi'n gweld disgrifiad o'r erthyglau sy'n cynnwys eich geiriau allweddol. Efallai y byddwch chi'n gweld rhai sydd ddim yn union beth rydych chi'n chwilio amdano. Fe allech chi fod yn fwy penodol wrth chwilio. Er enghraifft, yn lle teipio geiriau fel parts of a mosque pictures, ceisiwch deipio "parts of a mosque" pictures ac fe gewch chi'r erthyglau sy'n cynnwys y geiriau parts of a mosque fel ymadrodd, yn lle fel geiriau ar wahân. Gwell fyth fyddai enwi'r rhan o'r mosg a'i ddefnyddio fel gair allweddol, fel mihrab pictures.
4. Cliciwch ar yr adran sy'n edrych fwyaf defnyddiol. Os nad yw hyn beth rydych chi eisiau, cliciwch ar y botwm 'back' (ar dop eich sgrin ar y chwith) er mwyn mynd yn ôl i'r dudalen flaenorol, a cheisio erthygl arall.
5. Os cewch chi lun yr hoffech chi ei gopïo, symudwch y cwrswr drosto a chliciwch y botwm ar y dde. Yna, cliciwch ar 'copy' a dewiswch pa ffeil yr hoffech chi gopïo'r llun iddi.

Dyma rai geiriau allweddol i chi ddechrau.

- mihrab pictures
- Islamic art pictures
- Muslim clothes pictures
- Muslims "how to pray" pictures
- Muslim aid agencies



## Geiriau allweddol a ddefnyddiais

# Crefyddau'r Byd Heddiw

## *Llawlyfr athrawon*

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhan o Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, sy'n cynnwys saith llyfr stori ar gyfer plant 8 -11 mlwydd oed. Yn y gyfres mae'r disgyblion a'r athrawon yn cael eu gwahodd i ymuno â dau blentyn o'r enw Rhys a Sara sy'n dysgu mwy am eu ffrindiau o saith traddodiad crefyddol:

- Eglwys Anglicanaidd
- Bwdhaeth
- Eglwys Unionged Ddwyreiniol
- Hindŵaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Sikhiaeth

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhoi:

- gwybodaeth gefndirol gynhwysfawr am y saith traddodiad crefyddol
- gweithgareddau dosbarth
- taflenni gwaith y mae'n bosib eu llungopïo
- rhestr geiriau allweddol

